

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn /Grŵp Gweithredol Lleol Ynys Môn (LAG) (Arloesi Môn)		
Lle Venue	Zoom		
Dyddiad Date	14/7/20 20	Amser Time	13.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Sector Preifat:		
Nigel Peacock	Contractwr Hunangyflogedig	NP
Dylan Evans	Contractwr Hunangyflogedig	DE
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol:		
Peter Davies OBE	Menter Gymdeithasol Llangefni	PD
Sian Purcell	Medrwn Môn	SP
Neville Evans	Iorwerth Arms Bryngwran	NE
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)	MJ
Molly Lovett	Cyfoeth Naturiol Cymru	ML
Dewi Lloyd	Cyngor Sir Ynys Môn	DLI
Staff Menter Môn		
Meilir Pritchard	Menter Môn	MP
Sioned Morgan Thomas	Menter Môn	SMT (cofnodion)
Dafydd Gruffydd	Menter Môn (MD)	DG
Hefyd yn bresennol		
Liz Davies	Cyngor Sir Ynys Môn	LD PR
Pryderi ap Rhisiart	M-Sparc (MD)	

Eitem ar yr Agenda	Trafodaethau	Pwyntiau Gweithredu
1 – Croeso ac Ymddiheuriadau	<p>Ymddiheuriadau – Mari Faulkner (sector preifat)</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd (MJ) bawb i'r cyfarfod a diolchodd i bawb ymlaen llaw am roi o'u hamser ar fyr rybudd. Croesawodd y Cadeirydd Liz Davies (Cyngor Môn) a Phryderi ap Rhisiart (M-Sparc).</p> <p>Cydnabuwyd fod y cais i fynychu cyfarfod 'brys' heddiw yn un anarferol, ond mae hon yn adeg anarferol. Cyfeiriodd MJ at yr agenda (a ddangoswyd ar y sgrin) a</p>	

	<p>gofynnodd i DG agor y cyfarfod trwy roi rhywfaint o gefndir a chyd-destun ehangach i'r cyfarfod.</p>	
2. Cyd-destun	<p>Pwysleisiodd DG fod galw cyfarfod brys yn gais anarferol iawn ac yn ddigwyddiad anghyffredin iawn yn achos y LAG. Y drefn arferol yw bod problemau'n cael eu canfod, a bod prosiectau'n cael eu datblygu mewn cydweithrediad ag aelodau'r LAG, ac roedd yn derbyn felly fod hwn yn achos anarferol iawn.</p> <p>Fodd bynnag, cafodd y cyfarfod hwn ei alw i drafod cynnig i ddatblygi App Tracio ac Olrhain am <u>£30k (yn cynnwys TAW)</u>.</p> <p>Roedd DG yn cydnabod bod yr ap Tacio ac Olrhain (TT) yn gymhleth ac yn un nad oedd yn ei ddeall yn iawn ac nad oes ganddo arbenigedd yn y maes, ac mai LD a PR sydd yn y sefyllfa orau i drafod y peilot a'r system ei hun.</p> <p>Fodd bynnag, cyn trafod y cynnig, roedd DG yn awyddus i sicrhau bod aelodau'r LAG yn deall y cyd-destun ehangach ac y dylid ei ystyried yn fanwl. Y materion i'w hystyried yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Roedd posibilrwydd yn ystod y ddeufis diwethaf y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ailgyfeirio cyllid o'r rhaglen EAFRD (sy'n cynnwys y rhaglen LEADER) i ymateb yn uniongyrchol i Covid19. Roedd ymateb Menter Môn i Covid yn rhagweithiol iawn ac roedd wedi lobbio i sicrhau'r cyllid LEADER. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd y cyllid LEADER yn cael ei ailgyfeirio, mae wedi cyhoeddi canllaw atodol ar gyfer y rhaglen LEADER, sy'n cynnwys gofyniad bod pob LAG yn datblygu ac yn cefnogi prosiectau sy'n ymateb yn uniongyrchol i Covid. 2. O ystyried Brexit a'r ansicrwydd ynghylch cyllido rhaglenni yn y dyfodol ar ôl LEADER, mae MM hefyd yn gweithio'n galed i gyfrannu at amrywiaeth o ymgynghoriadau ar ddyfodol cyllid i ardaloedd gwledig. 3. Mae Cyngor Môn yn gefnogol iawn i'r LAG a'n prosiectau LEADER, ar ôl cydweithio ar lawer o brosiectau dros y blynyddoedd (y Comisiwn Tegwch / Awyr Dywyll ac ati). Llwyddwyd i sicrhau £500k yn 2015 gan Gymdeithas Ymddiriedolaeth Môn fel arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen LEADER, ac er nad yw hwn yn arian yr Awdurdod Lleol yn benodol, mae ein perthynas â'r Cyngor Sir a'u cefnogaeth i waith a wnaed gan MM / LAG, wedi helpu i 	

	<p>sicrhau'r cyllid hwnnw.</p> <p>4. Ers i Covid ein cyrraedd ganol mis Mawrth, bu MM yn cydweithio'n glos â Medrwn Môn a Chyngor Môn ar ymateb i Covid; a bu'n bartneriaeth/berthynas waith lwyddiannus dros ben. Adleisiodd SP sylwadau DG o ran y berthynas rhwng y tri sefydliad a chadarnhaodd nad oedd gan yr un CGS arall yng Nghymru berthynas mor effeithiol â'i Hawdurdod Lleol a menter gymdeithasol.</p> <p>Nododd DG ei fod wedi cael gwahoddiad i drafod peilot posibl gydag Arweinydd y Cyngor (Cyng Llinos Medi) ac Anwen Morgan (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn) ymhlith eraill. Roedd DG yn credu bod y Cyngor yn yr achos hwn wedi ymestyn allan am gefnogaeth, o ganlyniad i'r berthynas sydd wedi datblygu rhwng y sefydliadau.</p> <p>O ganlyniad i'r ffactorau uchod, gorffennodd DG drwy ddweud ei fod yn sylweddoli bod y pwnc hwn yn un cymhleth iawn ac yn wleidyddol, a'i fod yn bryderus beth fyddai'r goblygiadau ehangach os na roddir cefnogaeth i'r peilot.</p>	
<p>3. Cefndir</p>	<p>Diolchodd y Cadeirydd i Dafydd am y cyd-destun a chroesawodd Liz i gadarnhau ei rôl gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac i roi rhagor o wybodaeth am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma.</p> <p>Cyflwynodd LD ei hun fel yr Uwch Berchennog Cyfrifol (yn cyflawni'r rôl hon yn ystod y pandemig), a oedd yn gweithio fel rhan o'r tîm i gyflawni strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) Llywodraeth Cymru ym Môn. Cadarnhaodd LD fod y Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni hyn ac roedd yn un o'r ardaloedd cyntaf i dreialu'r broses olrhain cyn iddi gael ei chyflwyno'n genedlaethol.</p> <p>Mae Olrhain Cysylltiadau yn sicrhau bod y sawl sy'n profi'n bositif yn siarad â swyddog hyfforddedig (Swyddog Olrhain TTP) sy'n casglu gwybodaeth fanwl am y manau lle maent wedi bod a'r bobl y buont mewn cysylltiad clos â hwy ers iddynt fynd yn sâl. Ar ôl canfod y cysylltiadau hyn bydd Cyngorydd TTP yn cysylltu â hwy i'w cynghori i hunanynysu a rhoi gwybodaeth iddynt ar yr hyn dylent ei wneud os byddant yn sâl neu'n datblygu symptomau penodol.</p> <p>Mae Cyngor Môn wedi datgan cefnogaeth i'r ap arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r TTP. Dywedodd LD y</p>	

	<p>byddai, yn ogystal â helpu i atal ymlediad Covid, yn profi'r dechnoleg ac yn dangos sut y mae'n ychwanegu gwerth at y broses TTP gan helpu i gyflwyno'r dechnoleg ar lefel genedlaethol. Nododd LD hefyd fod buddiannau cymdeithasol ac economaidd ynghlwm wrth dreialu'r ap ar yr ynys. Er bod poblogaeth Môn yn debygol o gynyddu yn ystod misoedd yr haf o ganlyniad i ymwelwyr, gallai'r ap hwn fod yn un ffordd o roi sicrwydd i bobl eu bod yn ddiogel ac y byddant yn cael eu hysbysu pe baent yn dod i gysylltiad ag achos positif.</p> <p>Byddai hefyd yn dangos ymagwedd arloesol yn ogystal â chydweithio rhwng y sectorau preifat, cymunedol a chyhoeddus ym Môn.</p> <p>O ganlyniad i'r gwaith a wnaed hyd yma ar y system tracio ac olrhain, mae LD yn deall bod cefnogaeth wleidyddol i'r App – byddai hyn yn ategu elfen tracio ac olrhain y Strategaeth TTP.</p> <p>Diolchodd MJ i LD am ei chyfraniad a chroesawodd PR i drafod yr eitem nesaf ar yr agenda – trosolwg technegol.</p>	
<p>4. Trosolwg Technegol</p>	<p>Dechreuodd PR drwy egluro mai cwmni wedi'i leoli ym M-Sparc a ddaeth i gysylltiad yn y lle cyntaf i drafod y syniad am y prosiect arfaethedig. (Mae Loyalty Logistix yn gweithio ar ddata mawr gyda chwmnïau fel Audi ac maent yn gweithio ar hyd a lled y byd mewn gwledydd fel Japan, America ac yn Ewrop).</p> <p>Ar ôl ymchwilio i'r platfform /ap sy'n cael ei ddefnyddio yn Ewrop, roeddent yn teimlo ei fod yn blatfform llawer gwell na'r un sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan NHS X. Roeddent hefyd yn deall y problemau a'r cymhlethdodau roedd NHS X yn eu profi gyda'r platfform presennol. Ar ôl cael cefnogaeth y Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol roedd cyfle pendant i dreialu ap ychwanegol yma ym Môn.</p> <p>Y cynnig yw defnyddio ac addasu system sydd eisoes yn weithredol yn Iwerddon, h.y. ei gwneud yn ddwyieithog, ei hailfrandio yn unol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ati. Mae costau ynghlwm wrth y darn hwnnw o waith, ac maent yn gymesur â'r gwaith sy'n cael ei wneud.</p> <p>Dywedodd aelodau yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am y dadansoddiad o'r gost.</p>	<p>Manylion am y dadansoddiad o'r gost</p>

	<p>Byddai'n rhaid i'r App weithio ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Liz a'i thîm yn y Cyngor Sir h.y. byddai Liz a'i thîm yn cysylltu â rhywun sydd wedi'u heintio a byddent yn cael cod i'w fwydo i'r ap. Byddai'r ap wedyn yn gallu hysbysu eraill sydd wedi bod yn agos atynt (e.e. wedi eistedd wrth eu hochr ar fws).</p> <p>Roedd PR yn credu, er mwyn cael ymwelwyr i ddefnyddio'r app y byddai'n rhaid cael ymgyrch gyhoeddusrwydd, gan sicrhau ein bod yn gweithio â'r Cyngor Sir, Menter Môn a Chymdeithas Twristiaeth Ynys Môn (ATA) i wneud yn siŵr bod ymwelwyr yn lawrlwytho ac yn defnyddio'r ap. Gallai fod yn fodd i warchod cymunedau ac unigolion lleol a rhoi rhywfaint o sicrwydd iddynt.</p> <p>Aeth PR ymlaen i egluro y gallai'r App hefyd roi gwybodaeth ychwanegol i bobl ar sut i ymddwyn tra'r oeddent yma (os oedd yn wahanol i wledydd eraill), a chynnwys cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill (atyniadau i ymweld â hwy – dolen at wefan Croeso Môn).</p>	
5. Trafodaeth agored	<p>Ar ôl clywed y tri chyflwyniad, cafwyd trafodaeth agored. Cyfrannodd pob aelod at y drafodaeth. Mae'r sylwadau (S) a'r cwestiynau (C) a gafwyd i gyd wedi'u rhestru isod:</p> <p>C – Beth sy'n digwydd gyda'r App sy'n cael ei ddatblygu gan y GIG / Llywodraeth?</p> <p>A - Rydym yn ymwybodol o broblemau gyda system / App NHS X, ac mae'n cymryd amser hir i'w datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i edrych ar fodel gwahanol. Mae Loyalty Logistix yn gallu defnyddio data / gwybodaeth Iwerddon a'r Almaen ac mae'n credu bod honno'n system well. Er bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi system arall, ni all gael ei gweld yn ariannu ap arall.</p> <p>Nodwyd hefyd fod y gwaith yn dal i aros am gymeradwyaeth y gweinidog, hyd yn oed pe bai'r LAG yn ei gymeradwyo heddiw nid oedd sicrwydd y byddai'n mynd yn ei flaen.</p> <p>C – A fydd nifer o appiau mewn gwahanol rannau o Gymru? (pryder bod gwahanol appiau'n cael ei datblygu ar gyfer gwahanol rannau o'r DU a sut y byddent yn rhyngweithio â'i gilydd).</p>	

	<p>A - Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw appiau eraill sy'n cael eu datblygu heblaw am yr App cyfredol ac ap NHS X sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Y cynnig yw ei dreialu ym Môn gyda'r posibilrwydd o'i gyflwyno ledled Cymru, ac y byddai wedyn yn cysylltu â NHS X pe bai hwnnw'n cael ei gyflwyno ledled y DU.</p> <p>C - A fyddai'r ap hwn yn cyd-fynd â'r system genedlaethol ynteu a fyddai'n gweithredu ar wahân?</p> <p>Cadarnhaodd PR mai'r hyn sy'n cael ei drafod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yw y byddai'r App yn gweithredu ochr yn ochr â rhaglenni cenedlaethol eraill fel platfform NHS X. Os byddai'n llwyddiannus ni fyddai ar gyfer yr ynys yn unig, byddai angen sicrhau bod y ddwy system yn gallu gweithio ochr yn ochr. Mae'r dechnoleg ar gael i alluogi hynny (h.y. mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar eich dyfais ac nid ar yr ap).</p> <p>Nododd LD hefyd fod y gwaith yn cael ei arwain yn genedlaethol a bod yn rhaid iddo gydymffurfio â pholisïau Llywodraeth Cymru; felly byddai rhwymedigaeth i gysylltu â systemau TTP rhanbarthol eraill, h.y. os yn ymweld â gwahanol rannau o'r DU, byddai manylion pobl yn cael eu trosglwyddo i'r gwahanol rannau o fewn y DU.</p> <p>C – A yw hwn yn gyfle i gwmnïau technoleg i edrych ar Fôn fel lle i brofi datblygiadau arloesol yn y dyfodol?</p> <p>A – Mae cyfle'n sicr i'r prosiect allu codi proffil Ynys Môn o ran cyfleoedd digidol ac Ymchwil ac Arbrofi.</p> <p>C / A - Fel rhan o Rwydwaith Tafarnau DU gyfan mae appiau fel appiau 'cadw'n ddiogel' yn cael eu defnyddio eisoes yn lleol ac mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n defnyddio cod QR y gallwch ei sganio wrth gerdded i mewn i dafarn ac mae'r landlord / rheolwr wedyn yn cael manylion pawb sydd wedi ymweld â'r dafarn. Hoffem wybod ym mha ffordd mae'r cynnig hwn yn wahanol.</p> <p>A – Credir fod yr app ychydig yn wahanol, yn yr ystyr y byddai'r app cadw'n ddiogel yn gallu rhoi data ar ymweliad ag un lleoliad ac mae wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y sector lletygarwch. Er y byddai'r TTP sy'n cael ei drafod yn canfod pobl rydych wedi bod yn agos atynt h.y. wedi eistedd wrth eu hochr ar fws, wedi bod yn yr un rhes â hwy i dalu mewn siop.</p>	
--	--	--

	<p>C – Pwy fydd yn berchen ar yr app?</p> <p>A – Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae’r Eiddo Deallusol o fewn LEADER fel arfer yn aros gyda’r LAG ac felly mae hyn yn rhywbeth y dylid edrych yn fwy manwl arno.</p> <p>C - Pwy fyddai’n elwa’n fasnachol ar y peilot?</p> <p>A – Loyalty Logistix. Fodd bynnag, ni fyddai modd gwneud arian mawr yn ystod y peilot ond mae’n anodd gwybod beth allai ddigwydd y tu hwnt i’r peilot cychwynnol. Fel cwmni maent yn awyddus i ehangu i’r sector iechyd ac maent yn gweld hyn fel modd i’w galluogi i feithrin cysylltiadau yn hytrach na gwneud enillion masnachol.</p> <p>C – Faint mae’r bartneriaeth wedi’i fuddsoddi yn y peilot? Ac os dim, pam?</p> <p>A – Dim hyd yma. Mae’r sefyllfa’n un sensitif yn wleidyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol ac ni fyddai’r gwaith yn mynd yn ei flaen heb gadarnhad a chymeradwyaeth y gweinidog.</p> <p>C – Ar ôl ystyried y materion ariannol, mae llawer o arian ymchwil ar gael i gwmnïau e.e. y gronfa arloesi. Oni allai LEADER gyfrannu £2 - £3k i’w helpu i baratoi ceisiadau i raglenni cyllido eraill?</p> <p>A – Mae DG o’r farn na fyddai hynny’n gweithio ac nid yw hynny’n rhywbeth y byddai ei angen arnynt nac y byddent ei eisiau. Os ceir cymeradwyaeth y gweinidog bydd yn rhaid symud yn gyflym, a chan fod LEADER yn gronfa mor hyblyg ac amharod i gymryd risgiau roeddent wedi cysylltu â ni fel y LAG.</p> <p>C – Pam mae cais i’r LAG ei ariannu?</p> <p>A – Cadarnhaodd DG ei bod yn gais anarferol iawn ond mae’n credu eu bod wedi gofyn inni ei ariannu am nad oes arian ar gael o unman arall a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo’n gyhoeddus i ariannu NHS X yn hytrach na systemau eraill/amgen.</p> <p>Nododd LD hefyd drwy ddweud ei bod yn cydnabod nad yw hyn yn rhywbeth y byddai’r Cyngor Sir yn gofyn i’r grŵp ei gefnogi/ariannu. Fodd bynnag, mae rôl allweddol i app o’r fath, a byddai cael rhywbeth felly’n weithredol cyn gynted â phosibl yn helpu adferiad cymdeithasol ac economaidd yr ynys. I gloi dywedodd LD</p>	<p>Sicrhau eglurder ar yr Eiddo Deallusol</p> <p>Ystyried/ egluro a fyddai budd masnachol i MM</p>
--	--	--

	<p>ei bod yn bwysig iawn ystyried yr amcanion mwy tymor hir.</p> <p>C – Beth yw’r rhif R ym Môn?</p> <p>Ni allai neb ateb y cwestiwn; fodd bynnag, cafwyd cadarnhad y byddai’n cael ei ddilysu a’i gadarnhau.</p> <p>C – Yng nghyd-destun Môn, mae dwy ffordd i mewn ac allan o’r ynys, ac mae angen ystyried a sicrhau bod pobl yn ei ddefnyddio. A allwn ni ei wneud yn orfodol? Mae’r ffaith ein bod yn ynys yn fantais enfawr yn y ddadl honno.</p> <p>C – Pryderon ein bod mewn perygl o golli persbectif. Mi allai fod yn ddefnyddiol i Fôn mewn pob math o ffyrdd. O ran gwerth am arian – nid oes gennym syniad beth fydd effaith barhaol y feirws. Mae’r rhaglen LEADER wedi’i sefydlu i gymryd risgiau.</p> <p>C – Mae gan yr app y potensial i gynnig gwasanaethau / gwybodaeth arall yn ogystal â thracio ac olrhain. Mae gwrthweithio yn erbyn y problemau o safbwynt cymunedau / ymwelwyr yn fudd. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd os bydd achosion o’r feirws yn codi eto yn y dyfodol.</p> <p>Diolchodd MJ i bawb am eu cyfraniadau a daeth â’r drafodaeth i ben. Ar ôl cydnabod na chafodd pob cwestiwn ei ateb, cadarnhawyd na fyddai dim sylwadau’n cael eu diystyru. Gweithredir ar bob ymholiad a phwynt gweithredu ac adroddir yn ôl i’r grŵp yn y man.</p> <p>Ar sail hynny, gofynnodd MJ i bawb a oedd o blaid cefnogi’r cynnig mewn egwyddor dangos hynny drwy godi eu dwylo.</p>	Cadarnhau’r rhif R cyfredol ym Môn
6. Penderfyniad	<p>YN ERBYN– 2 (NP / PD) O BLAID – 5 (SP / DE, ML, NE, DLI)</p> <p>Heb bleidleisio – Staff Menter Môn, y Cadeirydd, PR a LD</p>	
7. Cloi’r cyfarfod	Cadarnhaodd y Cadeirydd ganlyniad y bleidlais a ddangosir uchod a diolchodd i bawb am eu presenoldeb a’u cyfraniad.	

PWYNTIAU GWEITHREDU / CWESTIYNAU

1	Cadarnhau / dadansoddi’r rhif R cyfredol ym Môn
---	---

2	Eglurder ar yr Eiddo Deallusol / buddiannau masnachol
3	Manylion dadansoddiad o'r gost
4	Holi Llywodraeth Cymru beth mae ardaloedd eraill yn ei wneud a pham treialu hwn ac ynteu heb fod yn newydd nac arloesol?
5	(cwestiynau ychwanegol a anfonwyd drwy e-bost) Mi hoffwn wybod beth yn union sy'n arloesol mewn prosiect yr ymddengys sy'n ddim mwy na threalu rhywbeth y profwyd eisoes sy'n dda, felly beth arall sy'n digwydd gyda'r prosiect hwn?
6	Diogelu data – a fyddai system tracio ac olrhain yn gweithio os byddai'r gosodiad lleoliad wedi'i ddiffodd?